Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Arestiwyd pedwar person fel rhan o ymchwiliad yr ASB i droseddau bwyd

Ddydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025, cynhaliodd yr NFCU ymgyrch yng Nghaerl?r gyda chymorth awdurdodau lleol a Heddlu Swydd Gaerl?r. Cafodd dyn 48 oed ei arestio ar amheuaeth o dwyll trwy gamgyfleu a chynllwyn i dwyllo. Cafodd ei ryddhau dan ymchwiliad.

Ddydd Mercher, 30 Gorffennaf 2025, ymwelodd swyddogion NFCU, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, Heddlu Metropolitan a Heddlu Surrey, â nifer o safleoedd yn Llundain, gan arwain at dri arestiad. Cafodd dyn 56 oed a menyw 51 oed o Croydon, ynghyd â dyn 48 oed o Epsom, eu harestio ar amheuaeth o dwyll trwy gamgyfleu a chynllwyn i dwyllo. Cawsant eu rhyddhau'n ddiweddarach dan ymchwiliad.

Cafodd dyn 52 oed o Lundain ei gyfweld yn wirfoddol mewn gorsaf heddlu.

Atafaelwyd nifer mawr o fagiau 10kg a 20kg o reis cymysg mewn deunydd pecynnu basmati brand premiwm ffug fel rhan o'r ymgyrch.

Mae ymholiadau'n parhau.

> "Mae camgyfleu bagiau reis cymysg a fewnforir yn gyfreithlon fel cynhyrchion basmati premiwm yn fwriadol yn twyllo defnyddwyr ac yn creu cystadleuaeth annheg i fusnesau cyfreithlon. Mae'r ymgyrch hon yn dangos ymrwymiad yr NFCU i ddiogelu defnyddwyr rhag troseddau bwyd a diogelu ein cadwyn gyflenwi bwyd.
>
> Mae'r arestiadau'n anfon neges glir y byddwn yn mynd ar ôl y rhai sy'n ceisio elwa o dwyllo defnyddwyr. Bydd ein timau'n parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi, ymchwilio a tharfu ar y rhwydweithiau troseddol hyn, gan sicrhau bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.
>
> Nid oes unrhyw risg iechyd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon am gynnyrch rydych chi wedi'i brynu, cysylltwch â'ch tîm Safonau Masnach lleol."
>
> Neil Castle, Dirprwy Bennaeth NFCU yr ASB

Os ydych chi'n amau twyll bwyd, rhowch wybod i'r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar food.gov.uk/cy/rhoi-gwybod neu drwy ffonio 0800 028 1180 (0207 276 8787 ar gyfer ffonau symudol a galwadau ffôn o'r tu allan i'r DU).